

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

Y BIL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA

DARPARIAETH YN DIWYGIO'R EITHRIAD GORCHMYNION YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL YM MHARAGRAFF 12 O ATODLEN 7 I DDEDDF LLYWODRAETH CYMRU 2006

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Gellir gweld y Bil yn:

Bill documents – Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill.

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; annog perchnogion cŵn i ymddwyn yn gyfrifol; mynd i'r afael â'r defnydd o arfau tanio gan gangiau a grwpiau troseddau cyfundrefnol; gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; a gwella safonau proffesiynol yr heddlu.
4. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cywasgu'r 19 gorchymyn presennol o fewn 6 gorchymyn newydd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; yn darparu i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol y gallu i sicrhau y gweithredir; yn caniatáu adfeddiannu gorfodol pan fo deiliad tenantiaeth ddiogel yn torri un o'r gorchymynion newydd; yn diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan estyn ei darpariaethau i eiddo preifat; yn cynyddu'r gosb uchaf am fewnforio ac allforio arfau tanio; yn creu'r drosedd newydd o feddiannu arfau tanio ar gyfer eu gwerthu neu eu trosglwyddo; yn gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; yn creu Coleg Plisma newydd a hefyd yn gwneud darpariaethau ynglŷn â rheolaethau ariannol ar brif gwnstablaid, ac yn estyn pwerau a chylch gwaith Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.
5. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru.

Darpariaethau yn y Bil y byddai cydsyniad yn ofynnol ar eu cyfer

6. Y gwelliant perthnasol a gynhwysir yn y Bil yw gwelliant Rhif 82 a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Hydref 2013. Gellir gweld y gwelliant yn Notices of amendments given on 7 October.
7. Ystyriwyd a phasiwyd y gwelliant yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Hydref. Effaith y gwelliant yw diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad) drwy osod y geiriau "Orders to protect people from behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress" yn lle'r geiriau "Anti-social behaviour orders" yn y rhestr o eithriadau ym mharagraff 12 o'r Atodlen honno.
8. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r eithriad amnewidiol, a gynigir gan Lywodraeth y DU ac a gynhwysir bellach yn y Bil, yn gosod cyfyngiad ehangach ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad nag y mae'r eithriad cyfredol, ac felly'n cael effaith sylweddol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r eithriad cyfredol yn ymwneud yn unig â gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol ("ASBO") o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, ac felly dylai'r hyn sy'n ei ddisodli ymwneud, yn unig, â'r pwerau hynny yn y Bil sy'n gyfartal, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol bosibl, â'r gorchmynion ASBO cyfredol. Mae'r eithriad amnewidiol yn mynd ymhellach na hynny, ac felly'n lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
9. Nid yw'r eithriad amnewidiol yn rhoi i Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.
10. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r gwelliant hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i pennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Goblygiadau addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad gan y Bil hwn

11. Ym marn Llywodraeth Cymru, byddai'r eithriad amnewidiol, sydd bellach wedi ei gynnwys yn y Bil drwy gyfrwng y gwelliant y cyfeirir ato uchod, yn effeithio'n sylweddol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
12. Effaith yr eithriad cyfredol yw nad yw'r gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO), o dan gyfundrefn bresennol Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Effaith yr eithriad amnewidiol gan Lywodraeth y DU, i'r gwrthwyneb, yw y byddai unrhyw orchmynion i ddiogelu pobl rhag ymddygiad sy'n peri, neu'n debygol o beri aflonyddwch, braw neu drallod, y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae hyn yn gyfystyr â lleihau pwerau'r Cynulliad, gan y byddai'n rhwystro'r Cynulliad rhag deddfu ynghylch sylwedd unrhyw fath o orchmyn i ddiogelu pobl rhag ymddygiad sy'n peri, neu'n debygol o beri aflonyddwch, braw neu drallod, hyd yn oed

mewn cyd-destunau datganoledig megis y gwasanaeth iechyd, ysgolion neu dai.

13. Mae unrhyw ddiwygiad yn Atodlen 7 yn ddiwygiad yn ein setliad datganoli, ac fel y cyfryw, dylid rhoi ystyriaeth ofalus iddo a'i wneud gyda chydysniad y Cynulliad. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod proses yn bodoli o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer gwneud diwygiadau yn Atodlen 7 drwy Orchymyn y Cyfrin Gyngor gyda chytundeb y Cynulliad, sy'n tanlinellu'r angen i sicrhau cytundeb y Cynulliad os eir ymlaen i wneud y diwygiad mewn Bil y DU.
14. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r ffordd briodol o symud ymlaen â'r diwygiad a fynnir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 fyddai drwy eithriad amnewidiol a fyddai'n cyfateb mor agos ag y bo'n rhesymol ymarferol i'r eithriad cyfredol, er mwyn peidio ag achosi unrhyw leihad sylweddol ym mhwerau'r Cynulliad.
15. Yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk, gwnaethom yn eglur nad oeddem yn gweld bod angen cynnwys yr eithriad ASBO yn Atodlen 7. Rydym o blaid diddymu'r eithriad, boed yn ei ffurf bresennol neu ar ôl ei ddiweddarau yn dilyn gweithredu'r Bil hwn, pan geir adroddiad Silk. Ar hyn o bryd, byddem yn derbyn eithriad amnewidiol yn y Bil hwn nad yw'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i raddau mwy na'r eithriad cyfredol, ond ni allwn dderbyn cynnig Llywodraeth y DU gan ei fod yn mynd ymhellach na'r eithriad cyfredol.
16. Ar 11 Hydref, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r gwelliant a gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru iddo. Roedd Llywodraeth y DU yn ymwybodol o'n gwrthwynebiad cyn cyflwyno'r gwelliant. Roeddem hefyd wedi cyflwyno cynnig manwl ar gyfer ffordd amgen o weithredu, gyda'r nod o sicrhau y byddai'r eithriad amnewidiol yn cwmpasu, yn unig, y pwerau hynny yn y Bil sy'n gyfartal i'r pwerau ASBO presennol, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol. Gellir gweld datganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog a chopïau o ohebiaeth a anfonwyd gennyf i a'r prif Weinidog yn <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/asbcp/?lang=cy>
17. Barn Llywodraeth Cymru, felly, yw nad yw'n briodol cynnwys gwelliant rhif 82, a gyflwynwyd ar 7 Hydref, yn y Bil hwn.

Goblygiadau ariannol

18. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Lesley Griffiths AC

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Hydref 2013**